

Canlyniadau Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod	15 Tachwedd, 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Gary Williams / Cyngorydd Emrys Wynne
Awdur yr Adroddiad	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn ym ymwneud â chanlyniadau Adroddiad Monitro Comisiynydd y Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wiriadau cydymffurfio a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg a chymeradwyo Cynllun Gweithredu.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I nodi'r canfyddiadau a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu.

4. Manylion yr Adroddiad

Bob blwyddyn, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal gwiriadau ymhlith sefydliadau sy'n gweithredu'r Safonau iaith statudol, er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hynny'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn trefnu cyfarfodydd blynyddol i drafod y canfyddiadau.

Yn dilyn ymarfer siopwr cudd gan swyddog y Comisiynydd, doedd fawr ddim i'w adrodd arno, sy'n galonogol iawn ac mae'r rhestr yn mynd yn llai bob blwyddyn. Felly mae angen parhau â'r gwaith da mae pawb yn ei wneud ar draws y Cyngor.

Y CANFYDDIADAU

1 GOHEBIAETH

Safon 1 - Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

Yn ystod yr arolygon canfuwyd nad oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safon hon. Ni dderbyniwyd ymateb Cymraeg i e-bost ar 1/3 achlysur. Derbyniwyd ymateb Cymraeg ar ôl nodi hynny wrth y swyddog perthnasol.

Argymhellion - pob adran o fewn y Cyngor yn derbyn nodyn atgoffa o'r prosesau sydd i'w dilyn wrth dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg erbyn 30 Tachwedd 2023. Mae Manon Celyn yn barod wedi gwneud hyn.

2 SAFONAU GWEITHREDU

Safon 136 - Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys –

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;

(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;

(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu

(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Yn ystod yr arolygon canfuwyd bod rhai swyddi yn parhau i ddefnyddio "empathi am y Gymraeg" a "dangos ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn yr amgylchedd gwaith".

Swyddog Refeniw a Budd-daliadau (Llwybr Gyrfa) Cyfeirnod - FASS00001W3SEE

Therapydd Galwedigaethol - Tîm Annibyniaeth yn y Cartref Cyfeirnod -
CAPA00001W3LDE

Argymhellion - Darparu diweddariad i'r Comisiynydd ar y gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu'r categoreiddio swyddi erbyn 31 Ionawr 2024.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr Iaith a diwylliant Cymraeg, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o Effaith Llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r buddion allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant a Chenhedlaeth y Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau Iaith Gymraeg.

Un o gydrannau allweddol Deddf Llesiant a chenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Canlyniadau Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg

Y brif risg yw i enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy Safonau'r Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn cymunedau.